

Rhwydwaith Cymunedau Arfordirol CoCoNet

Adroddiad Terfynol INTERREG IIIA

Adroddiad Terfynol

Medi 2004

<http://coconet.ucc.ie>

Canolfan Adnoddau

Arfordirol a Morol

(Coleg y Brifysgol Corc)

Grŵp yr Amgylchedd Morol ac

Arfordirol

(Prifysgol Caerdydd)

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rôl cymunedau lleol yn hyrwyddo Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM) yn ardal astudiaeth INTERREG IIIA, gan gynnwys y siroedd hynny yng Nghymru ac Iwerddon sy'n ffinio De Môr Iwerddon. Gweithredwyd y prosiect ymchwil gan ymchwilwyr yng Ngholeg y Brifysgol Corc ac ym Mhrifysgol Caerdydd.

Defnyddiodd y tîm ymchwil ddiffiniad gweithredol o ICZM fel:

proses sy'n dod â phawb sy'n ymwneud â datblygu, rheoli a defnyddio'r arfordir at ei gilydd mewn fframwaith sy'n hwyluso integreiddio eu buddiannau a'u cyfrifoldebau. Yr amcan yw sefydlu lefelau cynaliadwy o weithgaredd economaidd a chymdeithasol yn ein hardaloedd arfordirol tra'n diogelu'r amgylchedd arfordirol. Mae ICZM yn ganolog i'r agwedd sy'n seiliedig ar ecosystem.

Mae cymunedau arfordirol yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, cynrychiolwyr busnes a diwydiant, llywodraeth leol, cyrff anllywodraethol, y rheiny y mae ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol am rai agweddau o'r arfordir a chyfranogion eraill. Mae gan Gymru hanes da o gynnwys yr holl rhanddeiliaid hyn mewn mentrau rheoli'r arfordir. Dysgwyd llawer o wersi a chyflawnwyd llawer o ganlyniadau a chafwyd effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd arfordirol ac ar ymwybyddiaeth am faterion arfordirol yng Nghymru. Mewn cymhariaeth, yn Iwerddon lle mae modelau partneriaethau lleol wedi'u datblygu'n dda ar gyfer mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, cyfyng fu'r llwyddiant i roi hyn ac agweddau eraill ar waith yn y broses ICZM. Mae'r adroddiad hwn yn asesu'r arferion presennol mewn cynnwys cymunedau yn y rheolaeth o adnoddau arfordirol lleol ac yn nodi'r ffactorau sy'n cyfyngu ar lwyddiant yn ardal gyfrannol INTERREG IIIA. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r gwaith ymchwil yn defnyddio tair ffynhonnell: ymchwil gefndirol ac adroddiadau polisi, astudiaethau achos manwl ac mewnbyn gan rhanddeiliaid a gafwyd mewn tri gweithdy a drefnwyd gan CoCoNet.

Mae'r cyd-destun polisi ar gyfer rheolaeth arfordirol yn seiliedig ar Argymhellion yr UE ynglŷn ag ICZM. Datblygwyd yr argymhelliad hwn mewn cydnabyddiaeth o ostyngiad mewn statws parthau arfordirol ar draws Ewrop (e.e. disbyddu adnoddau, gorddatblygu, colli cynefinoedd, bod yn agored i niwed oblegid newid hinsawdd) ynghyd ag ymwybyddiaeth o'r manteision o fabwysiadu agwedd integredig at arferion rheolaeth arfordirol. Y canlyniad yw bod gwneuthurwyr polisi yng Nghymru ac Iwerddon yn wynebu datblygu polisiâu cenedlaethol a fydd yn darparu ar gyfer anghenion cymunedau arfordirol ar lefel leol. Caiff llunio polisiâu cenedlaethol ei herio gan y ffaith bod partneriaethau lleol a sefydliadau cymunedol yn gweithredu mewn amgylchiadau gofodol a chyd-destunau cymdeithasol gwahanol. Felly, y mae angen gwella'r ddealltwriaeth o sut y gall cymunedau arfordirol gymryd rhan mewn rheolaeth arfordirol, gan ddechrau gyda'r angen sylfaenol i ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol. Mae'r prosiect CoCoNet wedi nodi'r tueddiadau cyffredinol mewn ymagweddau cymunedau at ICZM yn ardal INTERREG IIIA fel a ganlyn:

- Mae ymagweddau cymunedol, yn bennaf, yn rhywbeth sy'n deillio o fentrau lleol, heb fawr o gefnogaeth gan y llywodraeth ganolog.
- Mae prosiectau rheolaeth arfordirol a sefydlwyd yn lleol yn dibynnu'n drwm iawn am ffynonellau ariannu lleol tymor-byr ar gyfer eu gweithgareddau, ac mae hyn yn peryglu cynaliadwyedd a llwyddiant y mentrau hyn.
- Mae diffyg cydweithrediad mewn ymagweddau at ICZM yn y rhanbarth. Mae llawer prosiect yn gweithredu'n annibynnol heb lawer o gyfle i drosglwyddo arfer da na'r hyn a ddysgwyd mewn modd systematig. Mae hyn yn broblem benodol yn Iwerddon, lle mae diffyg sylfaenol o gyfleoedd rhwydweithio ar gyfer ymarferwyr, rheolwyr ac ymchwilwyr arfordiroedd.
- Mae'r potensial am ddylanwadu ar bolisiâu wedi'i gyfyngu gan ddiffyg cyfranogaeth yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefelau rhanbarthol cenedlaethol a lleol.
- Mae'r ymagweddau at reolaeth arfordirol a strwythurau partneriaethau lleol yn amrywiol iawn, gyda dibyniaeth fawr ar hyrwyddwyr unigol, fel arfer o grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol neu sefydliadau academaidd.
- Mae diffyg ymwybyddiaeth o'r broses ICZM yn y rhanbarth, i'r fath raddau fel bod nifer fach o gymunedau arfordirol yn ymwneud â mentrau rheolaeth arfordirol lleol heb ymgyfarwyddo ag egwyddorion ICZM fel y cyfryw.

Mae'r gwaith ymchwil yn edrych mewn ffordd fwy manwl ar arferion rheoli arfordirol mewn nifer ddethol o astudiaethau achos yn y rhanbarth. Nodwyd 15 astudiaeth achos i'w hadolygu. Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond mae'n ddigon i ddynodi'r ymdrechion rheoli integredig sylweddol sydd wedi cychwyn mewn cymunedau arfordirol, er gwaethaf y ffactorau cyfyngol a ddisgrifir. Mae'r grymoedd Cychwyn (ffactorau cymell a chychwynwyr); Gweithredu (ffocws, ariannu, swyddogaeth, natur, strwythur a lleoliad); ac Effeithiau (allbynnau a chanlyniadau) prosiectau yn amrywio o'r naill i'r llall. Serch hynny, nodweddir yr ymagwedd gyffredinol at reolaeth arfordirol gymunedol yn y rhanbarth gan raglenni sy'n canolbwyntio ar weithredu ac sy'n dibynnu ar unigolion cryf eu cymhelliad, sydd â dyhead gwirioneddol i gyflawni datblygiad cynaliadwy ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth am yr amgylchedd arfordirol.

Mae penodau olaf yr adroddiad hwn yn amlygu pwysigrwydd rhwydweithio er mwyn hwyluso trosglwyddo arfer da a gwybodaeth newydd rhwng rhanddeiliaid ac ymarferwyr arfordirol. Mae angen rhwydwaith arfordirol cenedlaethol ar Iwerddon yn

arbennig, er mwyn dylanwadu ar bolisiâu ac i godi ymwybyddiaeth wleidyddol am faterion arfordirol. Mae'r niferoedd mawr a fynychodd weithdai prosiect CoCoNet yn dangos bod cefnogaeth sylweddol i ddigwyddiadau o'r fath gan awdurdodau lleol, asiantaethau statudol a grwpiau cymunedol arfordirol. Mae'r prosiect CoCoNet wedi cyflawni'r gwaith sylfaenol o ran rhwydweithio ac adeiladu cymhwyster ar gyfer y rhanbarth INTERREG IIIA, ac fe ddylid hybu hyn tra bo momentwm ac ewylllys da yn bodoli.

Mae prosiect i ddilyn INTERREG IIIA eisoes ar y gweill, ac fe fydd yn ffocysu ar yr angen am godi ymwybyddiaeth am yr amgylchedd arfordirol. Hyd yn hyn, codwyd ymwybyddiaeth pobl trwy gylchrediad eang Datganiad Wexford y cytunwyd ar yr egwyddorion a gynhwysir ynddo gan gyfranogwyr gweithdai CoCoNet. Lluniwyd y Datganiad er mwyn ymdrin â dau fater allweddol a ddeilliodd o'r astudiaeth, sef diffyg ymwybyddiaeth o faterion arfordirol ymhlith y cyhoedd a difaterwch gwleidyddol ynghylch rheolaeth arfordirol. Mae Datganiad Wexford yn galw ar lywodraethau i gefnogi grymuso cymunedau lleol, gan gynnwys llywodraeth leol, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd lleol o'r amgylchedd arfordirol a morol. Cynigir nifer o argymhellion er mwyn cyflawni'r nod hwn, gan gynnwys annog cydweithio, a chanlyniad y manteision o gydweithio yw'r adroddiad terfynol hwn.